



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 1270 (Cy.129)

2008 No. 1270 (W.129)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid
Penodedig (Cymru) 2008**

**The Specified Animal Pathogens
(Wales) Order 2008**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda diwygiadau Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998 (O. S. 1998/463) fel y mae'n gymwys i Gymru.

This Order revokes and re-enacts with amendments the Specified Animal Pathogens Order 1998 (S.I. 1998/463) as it applies to Wales.

Y prif newid yw darparu ar gyfer pwerau ychwanegol i arolygwyr (Atodlen 2).

The principal change is to provide for additional powers for inspectors (Schedule 2).

Fel yn y Gorchymyn blaenorol, mae'n darparu ei bod yn ofynnol cael trwydded oddi wrth Weinidogion Cymru i feddu ar bathogen anifail a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 neu i gyflwyno i anifail bathogen anifail a bennir yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen honno.

As in the previous Order, it provides that possession of an animal pathogen specified in Part 1 of Schedule 1, or introduction into an animal of an animal pathogen specified in Parts 1 and 2 of that Schedule, requires a licence from the Welsh Ministers.

2008 Rhif 1270 (Cy.129)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid
Penodedig (Cymru) 2008**

Gwnaed 7 Mai 2008
Yn dod i rym 10 Mai 2008

CYNNWYS

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Estyn diffiniad "anifail", "dofednod" a "clefyd"
3. Dehongli
4. Gwaharddiadau mewn perthynas â phathogenau anifeiliaid penodedig
5. Eithriadau
6. Pwerau arolygwyr
7. Hysbysiadau gwella
8. Hysbysiadau gwahardd
9. Apelau yn erbyn hysbysiadau gwella a gwahardd
10. Trwyddedau
11. Gorfodi
12. Dirymiadau

ATODLEN 1 - Pathogenau
anifeiliaid
penodedig
ATODLEN 2 - Pwerau arolygwyr

2008 No. 1270 (W.129)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The Specified Animal Pathogens
(Wales) Order 2008**

Made 7 May 2008
Coming into force 10 May 2008

CONTENTS

1. Title, application and commencement
2. Extension of the definition of "animal", "poultry" and "disease"
3. Interpretation
4. Prohibitions in relation to specified animal pathogens
5. Exceptions
6. Powers of inspectors
7. Improvement notices
8. Prohibition notices
9. Appeals against improvement and prohibition notices
10. Licences
11. Enforcement
12. Revocations

SCHEDULE 1 - Specified animal
pathogens
SCHEDULE 2 - Powers of
inspectors

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 7, 35(1), 87(2) a (5)(a) a 88(2) a (4)(a) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Cymru) 2008. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 10 Mai 2008.

Estyn diffiniad "anifail", "dofednod" a "clefyd"

2. At ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn—

- (a) estynnir diffiniad "anifail" ("*animal*") i gynnwys unrhyw fath o famal ac eithrio dyn, ac unrhyw greadur pedwartroed nad yw'n famal;
- (b) estynnir diffiniad "dofednod" ("*poultry*") i gynnwys unrhyw rywogaeth o aderyn; ac
- (c) estynnir diffiniad "clefyd" ("*disease*") i gynnwys unrhyw glefyd anifeiliaid a dofednod a all gael ei achosi gan un neu ragor o bathogenau anifeiliaid penodedig.

Dehongli

3.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

mae "anifail" ("*animal*") yn cynnwys dofednod;

ystyr "cludydd" ("*carrier*") yw unrhyw greadur byw ac eithrio dyn a all gludo neu drosglwyddo pathogen anifail penodedig neu feinwe, meithriniad celloedd, hylif corff, ysgarthion, carcass, neu ran o garcas y cyfryw greadur y gellir trosglwyddo neu gludo pathogen anifail penodedig ganddo neu drwy ei gyfrwng;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, adeilad neu le arall; ac

ystyr "pathogen anifail penodedig" ("*specified animal pathogen*") yw pathogen anifail a restrir yn Atodlen 1, gan gynnwys—

- (a) pathogenau cyfan;
- (b) pathogenau a wanhawyd neu a addaswyd yn enetig drwy unrhyw gyfrwng; ac

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by sections 1, 7, 35(1), 87(2) and (5)(a) and 88(2) and (4)(a) of the Animal Health Act 1981(1).

Title, application and commencement

1. The title of this Order is the Specified Animal Pathogens (Wales) Order 2008. It applies in relation to Wales and comes into force on 10 May 2008.

Extension of the definition of "animal", "poultry" and "disease"

2. For the purposes of the Animal Health Act 1981 in relation to this Order—

- (a) the definition of "animal" ("*anifail*") is extended so as to comprise any kind of mammal except man, and any kind of four-footed beast which is not a mammal;
- (b) the definition of "poultry" ("*dofednod*") is extended so as to comprise any species of bird; and
- (c) the definition of "disease" ("*clefyd*") is extended so as to comprise any disease of animals and poultry which may be caused by one or more specified animal pathogens.

Interpretation

3.—(1) In this Order—

"animal" ("*anifail*") includes poultry;

"carrier" ("*cludydd*") means any living creature except man which may carry or transmit a specified animal pathogen or the tissue, cell culture, body fluid, excreta, carcass or part of a carcass of such creature by or by means of which a specified animal pathogen may be transmitted or carried;

"premises" ("*mangre*") includes any land, building or other place; and

"specified animal pathogen" ("*pathogen anifail penodedig*") means an animal pathogen listed in Schedule 1, including—

- (a) intact pathogens;
- (b) pathogens which have been attenuated or genetically modified by any means; and

(1) 1981 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(1) 1981 c. 22. Functions of the Minister and the Secretary of State transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672 and S.I. 2004/3044. Functions of the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

- (c) unrhyw asid niwclëig sy'n deillio o bathogen anifail a restrir yn yr Atodlen honno a allai gynhyrchu'r pathogen hwnnw pan gâi ei gyflwyno i system fiolegol y mae'r asid niwclëig yn gallu dyblygu ynddo.

(2) Yn y Gorchymyn hwn nid yw "arolygydd" ("*inspector*") yn cynnwys arolygydd a benodwyd gan awdurdod lleol.

(3) Rhaid i drwydded neu hysbysiad a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig, caiff fod yn ddarostyngedig i amodau a chaniateir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw adeg.

Gwaharddiadau mewn perthynas â phathogenau anifeiliaid penodig

4.—(1) Ni chaiff neb feddu ar—

- (a) unrhyw bathogen anifail a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1; neu
- (b) unrhyw gludydd y gwyr fod y cyfryw bathogen ynddo,

ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaiff neb gyflwyno unrhyw bathogen anifail a bennir yn naill ai Rhan 1 neu Ran 2 o'r Atodlen honno i unrhyw anifail yn fwriadol, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i berson hysbysu Gweinidogion Cymru ar unwaith os yw'r person hwnnw—

- (a) yn meddu ar unrhyw beth yn ei gylch y mae ganddo sail resymol dros amau bod pathogen anifail a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 yn bresennol, a
- (b) heb drwydded ar gyfer y pathogen hwnnw.

Eithriadau

5.—(1) Nid yw erthygl 4 yn gymwys i unrhyw berson sy'n cludo pathogen neu gludydd ac nad yw'n berchen ar y pathogen na'r cludydd hwnnw neu nad oes ganddo unrhyw hawliau ynddynt.

(2) Nid yw erthygl 4 yn gymwys o ran unrhyw bathogen na chludydd a geir mewn cynnyrch—

- (a) a awdurdodir i'w roi ar y farchnad yn y Deyrnas Unedig fel cynnyrch meddyginiaethol milfeddygol, neu a awdurdodir i'w roi i anifail yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a awdurdodir i'w roi ar y farchnad o dan Reoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Awdurdodiadau Marchnata etc.) 1994(1);

- (c) any nucleic acid derived from an animal pathogen listed in that Schedule that could produce that pathogen when introduced into a biological system in which the nucleic acid is capable of replicating.

(2) In this Order "inspector" ("*arolygydd*") does not include an inspector appointed by a local authority.

(3) A licence or notice issued under this Order must be in writing, may be subject to conditions and may be amended, suspended or revoked by notice in writing at any time.

Prohibitions in relation to specified animal pathogens

4.—(1) No person may have in their possession—

- (a) any animal pathogen specified in Part 1 of Schedule 1; or
- (b) any carrier in which they know such a pathogen is present,

except under the authority of a licence issued by the Welsh Ministers.

(2) No person may deliberately introduce into any animal any animal pathogen specified in either Part 1 or Part 2 of that Schedule, except under the authority of a licence issued by the Welsh Ministers.

(3) A person must immediately notify the Welsh Ministers if that person—

- (a) has possession of any thing in respect of which they have reasonable grounds for suspecting that an animal pathogen specified in Part 1 of Schedule 1 is present, and
- (b) does not have a licence in respect of that pathogen.

Exceptions

5.—(1) Article 4 does not apply to any person who is transporting a pathogen or carrier and who does not own or have any rights in that pathogen or carrier.

(2) Article 4 does not apply in relation to any pathogen or carrier contained in a product—

- (a) authorised to be placed on the market in the United Kingdom as a veterinary medicinal product, or authorised to be administered to an animal in the United Kingdom;
- (b) authorised to be placed on the market under the Medicines for Human Use (Marketing Authorisations etc) Regulations 1994(1);

(1) O.S. 1994/3144.

(1) S.I. 1994/3144.

- (c) a drwyddedwyd yn unol â darpariaethau adran 7(2) o Ddeddf Meddyginiaethau 1968(1).

Pwerau arolygwyr

6. Yn ychwanegol at y pwerau a nodir yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981, mae gan arolygydd sy'n gorfodi'r Gorchymyn hwn y pwerau a nodir yn Atodlen 2.

Hysbysiadau gwella

7.—(1) Os yw arolygydd yn barnu bod person—

- (a) yn cyflawni unrhyw weithgaredd sy'n torri un neu ragor o amodau trwydded a ddyroddwyd o dan y Gorchymyn hwn, neu
- (b) wedi torri un neu ragor o'r amodau hynny mewn amgylchiadau sy'n ei gwneud yn debygol y bydd y toramod yn parhau neu'n cael ei ailadrodd,

caiff yr arolygydd hwnnw gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad gwella") i'r person hwnnw.

(2) Rhaid i hysbysiad gwella—

- (a) pennu amodau'r drwydded a dorrwyd;
- (b) esbonio'r rhesymau paham y mae'r arolygydd o'r farn honno; ac
- (c) ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw unioni'r toramod neu'r materion sydd yn ei achosi, cyn pen y cyfnod a gaiff ei bennu yn yr hysbysiad.

(3) Rhaid i hysbysiad gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch y mesurau i'w cymryd i unioni unrhyw doramod neu fater y mae a wnelo'r hysbysiad ag ef; a chaniateir llunio'r cyfryw gyfarwyddiadau mewn dull sy'n rhoi dewis i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo rhwng ffyrdd gwahanol o unioni'r toramod neu'r mater.

Hysbysiadau gwahardd

8.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw weithgareddau y mae trwydded yn ofynnol ar eu cyfer o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Os yw arolygydd yn barnu bod y gweithgareddau yn cynnwys neu y gallant gynnwys risg o niwed difrifol i anifeiliaid, caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad ("hysbysiad gwahardd") i'r person hwnnw.

(3) Rhaid i hysbysiad gwahardd—

- (a) datgan bod yr arolygydd o'r farn honno;
- (b) pennu'r materion sydd ym marn yr arolygydd yn achosi neu y gallant achosi risg o niwed difrifol i anifeiliaid; ac

- (c) licensed in accordance with the provisions of section 7(2) of the Medicines Act 1968(1).

Powers of inspectors

6. In addition to the powers set out in the Animal Health Act 1981, an inspector enforcing this Order has the powers set out in Schedule 2.

Improvement notices

7.—(1) If an inspector is of the opinion that a person—

- (a) is carrying on any activity contravening one or more of the conditions of a licence issued under this Order, or
- (b) has contravened one or more of those conditions in circumstances that make it likely that the contravention will continue or be repeated,

that inspector may serve on that person a notice ("an improvement notice").

(2) An improvement notice must—

- (a) specify the conditions of the licence that have been contravened;
- (b) explain the reasons why the inspector is of that opinion; and
- (c) require that person to remedy the contravention or the matters occasioning it, within such period as may be specified in the notice.

(3) A notice must include directions as to the measures to be taken to remedy any contravention or matter to which the notice relates; and any such directions may be framed so as to afford the person on whom the notice is served a choice between different ways of remedying the contravention or matter.

Prohibition notices

8.—(1) This paragraph applies to any activities for which a licence is required under this Order.

(2) If an inspector is of the opinion that the activities involve or may involve a risk of serious harm to animals, the inspector may serve on that person a notice ("a prohibition notice").

(3) A prohibition notice must—

- (a) state that the inspector is of that opinion;
- (b) specify the matters which in that inspector's opinion give or may give rise to a risk of serious harm to animals; and

(c) cyfarwyddo na chaniateir cyflawni'r gweithgareddau y mae a wnelo'r hysbysiad â hwy oni bai bod y materion a bennir yn yr hysbysiad wedi cael eu hunioni.

(4) Mae cyfarwyddyd a geir mewn hysbysiad gwahardd o dan is-baragraff (3)(c) yn effeithiol—

- (a) ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad; neu
- (b) os yw'r hysbysiad yn datgan hynny, ar unwaith.

Apelau yn erbyn hysbysiadau gwella a gwahardd

9.—(1) Caiff person y mae hysbysiad gwella neu wahardd yn cael ei gyflwyno iddo apelio yn erbyn yr hysbysiad cyn pen 21 o ddiwrnodau i'r person a benodir at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i'r person penodedig ystyried yr apêl ac unrhyw sylwadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru ac adrodd yn ysgrifenedig, gan argymhell camau gweithredu, i Weinidogion Cymru.

(3) Yna caiff Gweinidogion Cymru naill ai ddiddymu'r hysbysiad neu ei gadarnhau, gyda neu heb addasiadau, a rhaid iddynt hysbysu'r apelydd gan roi'r rhesymau dros eu penderfyniad.

Trwyddedau

10. Ni chaiff unrhyw berson dorri amod trwydded a osodir ar y person hwnnw.

Gorfodi

11. Gorfodir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru.

Dirymiadau

12. Dirymir y gorchymynion canlynol—

- (a) Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998(1) wrth ei gymhwyso i Gymru; a
- (b) Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2006(2).

(c) direct that the activities to which the notice relates must not be carried on unless the matters specified in the notice have been remedied.

(4) A direction contained in a prohibition notice under sub-paragraph (3)(c) takes effect—

- (a) at the end of the period specified in the notice; or
- (b) if the notice so declares, immediately.

Appeals against improvement and prohibition notices

9.—(1) A person on whom an improvement or prohibition notice is served may within 21 days appeal against the notice to a person appointed for the purpose by the Welsh Ministers.

(2) The appointed person must consider the appeal and any representations made by the Welsh Ministers and report in writing, with a recommended course of action, to the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers may then either cancel the notice or confirm it, with or without modifications, and must notify the appellant, together with the reasons for their decision.

Licences

10. No person may contravene a licence condition imposed on that person.

Enforcement

11. This Order is enforced by the Welsh Ministers.

Revocations

12. The following Orders are revoked—

- (a) the Specified Animal Pathogens Order 1998(1) in its application to Wales; and
- (b) the Specified Animal Pathogens (Amendment) (Wales) Order 2006(2).

(1) O.S. 1998/463.

(2) O.S. 2006/2981 (Cy.272).

(1) S.I. 1998/463.

(2) S.I. 2006/2981 (W.272).

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
Weinidogion Cymru

7 Mai 2008

7 May 2008

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Erthygl 3

Article 3

Pathogenau anifeiliaid penodedig

Specified animal pathogens

RHAN 1

PART 1

1. Feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau
2. Feirws clwy Affricanaidd y moch
3. Feirws clefyd Aujesky
4. Feirysau ffliw adar sydd —
 - (a) heb eu nodweddu;
 - (b) Feirysau Teip A sydd â mynegrif pathogenedd mewnwythiennol mewn cywion chwe wythnos oed sy'n fwy na 1.2; neu
 - (c) Feirysau Teip A is-deip H5 neu H7 y mae dilyniannu niwcleotid wedi dangos amryw o asidau amino basig yn safle holltiad hægaglutinin.
5. *Babesia bovis*
6. *Babesia bigemina*
7. *Babesia caballi*
8. *Bacillus anthracis*
9. Feirws y tafod glas
10. Feirws leucosis buchol
11. *Brucella abortus*
12. *Brucella melitensis*
13. *Brucella ovis*
14. *Brucella suis*
15. *Burkholderia mallei*
16. Feirws clwy clasurol y moch
17. *Cochliomyia hominivorax*
18. Feirysau enseffalomyelitis ceffylaidd Dwyreiniol a Gorllewinol
19. *Echinococcus multilocularis*
20. *Echniococcus granulosus*
21. *Ehrlichia ruminantium*
22. Feirws anemia heintus ceffylaidd
23. Feirws clwy'r traed a'r genau
24. Feirws clefyd Hendra

1. African horse sickness virus
2. African swine fever virus
3. Aujesky's disease virus
4. Avian influenza viruses that are —
 - (a) uncharacterised;
 - (b) Type A viruses which have an intravenous pathogenicity index in six-week-old chickens of greater than 1.2; or
 - (c) Type A viruses H5 or H7 subtype for which nucleotide sequencing has demonstrated multiple basic amino acids at the cleavage site of hægaglutinin
5. *Babesia bovis*
6. *Babesia bigemina*
7. *Babesia caballi*
8. *Bacillus anthracis*
9. Bluetongue virus
10. Bovine leucosis virus
11. *Brucella abortus*
12. *Brucella melitensis*
13. *Brucella ovis*
14. *Brucella suis*
15. *Burkholderia mallei*
16. Classical swine fever virus
17. *Cochliomyia hominivorax*
18. Eastern and Western equine encephalomyelitis viruses
19. *Echinococcus multilocularis*
20. *Echniococcus granulosus*
21. *Ehrlichia ruminantium*
22. Equine infectious anemia virus
23. Foot and mouth disease virus
24. Hendra disease virus

- | | |
|---|---|
| 25. <i>Histoplasma farciminosum</i> | 25. <i>Histoplasma farciminosum</i> |
| 26. Feirws eneffalitis Siapaneaidd | 26. Japanese encephalitis virus |
| 27. Feirws clefyd y croen talpiog | 27. Lumpy skin disease virus |
| 28. <i>Mycoplasma agalactiae</i> | 28. <i>Mycoplasma agalactiae</i> |
| 29. <i>Mycoplasma capricolum</i> is-rywogaeth <i>capripneumoniae</i> | 29. <i>Mycoplasma capricolum</i> sub species <i>capripneumoniae</i> |
| 30. <i>Mycoplasma mycoides</i> is-rywogaeth <i>mycoides</i> SC ac amrywion <i>mycoides</i> LC | 30. <i>Mycoplasma mycoides</i> sub species <i>mycoides</i> SC and <i>mycoides</i> LC variants |
| 31. <i>Mycoplasma mycoides</i> amr <i>capri</i> | 31. <i>Mycoplasma mycoides</i> var <i>capri</i> |
| 32. Feirysau clefyd Newcastle (paramysofeirws adar teip 1) sydd— | 32. Newcastle disease (avian paramyxovirus type 1) viruses which are— |
| (a) heb eu nodweddu; neu | (a) uncharacterised; or |
| (b) â mynegrif pathogenedd mewnymenyddol mewn cywion diwrnod oed o 0.4 neu ragor, pan roddir dim llai na 10 miliwn o ddosau wyau heintus 50% (EID50) i bob aderyn yn y prawf. | (b) have an intracerebral pathogenicity index in one-day-old chicks of 0.4 or more, when not less than 10 million 50% egg infectious doses (EID50) are administered to each bird in the test. |
| 33. Feirws clefyd Nipah | 33. Nipah disease virus |
| 34. Feirws peste des petits ruminants | 34. Peste des petits ruminants virus |
| 35. Feirws y gynddaredd a phob feirws o'r genws <i>Lyssavirus</i> | 35. Rabies virus and all viruses of the genus <i>Lyssavirus</i> |
| 36. Feirws twymyn y Dyffryn Holtt | 36. Rift Valley Fever virus |
| 37. Feirws Rinderpest | 37. Rinderpest virus |
| 38. Feirws eneffalomyelitis ceffyllaidd St. Louis | 38. St. Louis equine encephalomyelitis virus |
| 39. Feirws brech y defaid a'r geifr | 39. Sheep and goat pox virus |
| 40. Feirws clefyd pothellog y moch | 40. Swine vesicular disease virus |
| 41. Feirws clefyd Teschen | 41. Teschen disease virus |
| 42. <i>Theileria annulata</i> | 42. <i>Theileria annulata</i> |
| 43. <i>Theileria equi</i> | 43. <i>Theileria equi</i> |
| 44. <i>Theileria parva</i> | 44. <i>Theileria parva</i> |
| 45. <i>Trichinella spiralis</i> | 45. <i>Trichinella spiralis</i> |
| 46. <i>Trypanosoma brucei</i> | 46. <i>Trypanosoma brucei</i> |
| 47. <i>Trypanosoma congolense</i> | 47. <i>Trypanosoma congolense</i> |
| 48. <i>Trypanosoma equiperdum</i> | 48. <i>Trypanosoma equiperdum</i> |
| 49. <i>Trypanosoma evansi</i> | 49. <i>Trypanosoma evansi</i> |
| 50. <i>Trypanosoma simiae</i> | 50. <i>Trypanosoma simiae</i> |
| 51. <i>Trypanosoma vivax</i> | 51. <i>Trypanosoma vivax</i> |
| 52. Feirws eneffalomyelitis ceffyllaidd Venezuela | 52. Venezuelan equine encephalomyelitis virus |
| 53. Feirws stomatitis pothellog | 53. Vesicular stomatitis virus |
| 54. Feirws Nil Orllewinol | 54. West Nile virus |

RHAN 2

55. Y feirws byw sy'n achosi clefyd gwaedlifol firaol mewn cwingod

ATODLEN 2

Erthygl 6

Pwerau arolygwyr

Pwerau cyffredinol arolygwyr

1.—(1) Caniateir i unrhyw bersonau y mae'r arolygydd yn barnu eu bod yn angenrheidiol fynd gyda'r arolygydd.

(2) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn caiff arolygydd—

- (a) cymryd unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau angenrheidiol i'r fangre;
- (b) gwneud unrhyw archwiliad ac ymchwiliad a all fod yn angenrheidiol o dan unrhyw amgylchiadau, a chaiff gyfarwyddo na ddylid tarfu (p'un ai yn gyffredinol neu mewn agweddau penodol) ar y fangre, unrhyw ran o'r fangre neu unrhyw beth yn y fangre cyhyd ag y bo'n rhesymol angenrheidiol at ddiben unrhyw archwiliad neu ymchwiliad;
- (c) cymryd mesuriadau neu dynnu lluniau neu wneud recordiadau;
- (ch) cymryd samplau o unrhyw eitemau neu sylweddau, neu'r atmosffer (yn y fangre ac wrth ymyl y fangre);
- (d) achosi i unrhyw eitem neu sylwedd gael ei ddatgymalu neu ei ddarostwng i unrhyw broses neu brawf (ond nid er mwyn ei niweidio neu ei ddistrywio oni bai bod hynny'n angenrheidiol o dan yr amgylchiadau at ddiben y broses neu'r prawf);
- (dd) cymryd meddiant o unrhyw eitem neu sylwedd a'i ddal dan gadw am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol—
 - (i) i'w archwilio a gwneud unrhyw beth iddo y mae gan yr arolygydd bŵer i'w wneud;
 - (ii) i sicrhau nad ymyrrir ag ef cyn cwblhau'r archwiliad;
 - (iii) i sicrhau ei fod ar gael i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos sifil neu droseddol;
- (e) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson y mae gan yr arolygydd achos rhesymol dros gredu y gall roi unrhyw wybodaeth (gan gynnwys enw a chyfeiriad y person hwnnw) sy'n berthnasol i unrhyw archwiliad neu ymchwiliad yn ateb (yn absenoldeb personau heblaw person a enwyd gan y person hwnnw i

PART 2

55. The live virus causing viral haemorrhagic disease of rabbits

SCHEDULE 2

Article 6

Powers of inspectors

General powers of inspectors

1.—(1) The inspector may be accompanied by such other persons as the inspector considers necessary.

(2) For the purposes of enforcing this Order an inspector may—

- (a) take any necessary equipment or materials on to the premises;
- (b) make such examination and investigation as may in any circumstances be necessary, and may direct that the premises, any part of the premises or anything in the premises be left undisturbed (whether generally or in particular respects) for so long as is reasonably necessary for the purpose of any examination or investigation;
- (c) take measurements or photographs or make recordings;
- (d) take samples of any articles or substances, or the atmosphere (both on the premises and in the vicinity of the premises);
- (e) cause any article or substance to be dismantled or subjected to any process or test (but not so as to damage or destroy it unless this is in the circumstances necessary for the purpose of the process or test);
- (f) take possession of any article or substance and detain it for so long as is necessary—
 - (i) to examine it and do to it anything that the inspector has power to do ;
 - (ii) to ensure that it is not tampered with before the examination is completed;
 - (iii) to ensure that it is available for use as evidence in any civil or criminal proceedings;
- (g) require any person whom the inspector has reasonable cause to believe to be able to give any information (including that person's name and address) relevant to any examination or investigation to answer (in the absence of persons other than a person nominated by that person to be present and any persons whom the

fod yn bresennol ac unrhyw bersonau y caniateir gan yr arolygydd i fod yn bresennol) unrhyw gwestiynau y mae'r arolygydd yn barnu ei bod yn briodol eu gofyn ac yn llofnodi datganiad o wirionedd yr atebion;

- (f) gwneud y canlynol yn ofynnol, sef dangos unrhyw drwydded neu gofnod a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn, eu harolygu a chymryd copïau ohonynt, neu eu symud ymaith er mwyn galluogi iddynt gael eu copïo a'u harchwilio;
- (ff) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi'r cyfryw gyfleusterau a chymorth o ran unrhyw faterion neu bethau o dan reolaeth y person hwnnw neu y mae gan y person hwnnw gyfrifoldebau mewn perthynas ag ef sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r arolygydd i arfer unrhyw un o'r pwerau a roddir iddo gan yr Atodlen hon;
- (g) cael mynediad at, archwilio a gwirio gweithrediad unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r cofnodion; ac at y diben hwn, caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd â gofal y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sy'n ymwneud fel arall â gweithredu'r cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, roi unrhyw gymorth sy'n rhesymol ofynnol, a phan gedwir cofnod drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff ei gwneud yn ofynnol bod cofnodion yn cael eu cyflwyno ar ffurf sy'n caniatáu mynd â hwy oddi yno.

(3) Mae'n rhaid i arolygydd sy'n bwriadu arfer y pŵer a roddir iddo gan is-baragraff (2)(d) uchod yn achos eitem neu sylwedd y deuir o hyd iddo mewn unrhyw fangre, os gofynnir iddo gan berson sydd ar y pryd yn bresennol yn y fangre honno ac sydd â chyfrifoldebau mewn perthynas â'r fangre honno, achosi i unrhyw beth sydd i'w wneud yn rhinwedd y pŵer hwnnw gael ei wneud ym mhresenoldeb y person hwnnw.

(4) Cyn arfer y pŵer a roddir gan is-baragraff (2)(d) yn achos unrhyw eitem neu sylwedd, rhaid i arolygydd ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys ei bod yn briodol ymgynghori â hwy at ddiben canfod pa beryglon, os oes rhai, a all fod mewn gwneud unrhyw beth y bwriedir ei wneud o dan y pŵer hwnnw.

(5) Pan fo arolygydd yn cymryd meddiant o unrhyw eitem neu sylwedd y deuir o hyd iddo mewn unrhyw fangre, rhaid i'r arolygydd adael hysbysiad yno, naill ai gyda pherson cyfrifol neu, os yw hynny'n anymarferol, wedi ei osod mewn lle amlwg, a hwnnw'n hysbysiad sy'n rhoi manylion am yr eitem neu'r sylwedd hwnnw sy'n ddigonol i'w adnabod ac sy'n datgan ei fod wedi ei gymryd o dan y pŵer hwnnw; a chyn cymryd meddiant o'r cyfryw sylwedd o dan y pŵer hwnnw rhaid i arolygydd, os yw'n ymarferol i wneud hynny, gymryd sampl ohono a rhoi i berson cyfrifol yn y fangre gyfran o'r sampl wedi ei marcio mewn dull sy'n ddigonol i'w hadnabod.

inspector may allow to be present) such questions as the inspector thinks fit to ask and to sign a declaration of the truth of the answers;

- (h) require the production of, inspect, and take copies of any licence issued under this Order or any record, or remove it to enable it to be copied and examined;
- (i) require any person to afford such facilities and assistance with respect to any matters or things within that person's control or in relation to which that person has responsibilities as are necessary to enable the inspector to exercise any of the powers conferred by this Schedule;
- (j) have access to, inspect and check the operation of any computer and any associated apparatus or material that is or has been in use in connection with the records; and for this purpose may require any person having charge of, or otherwise concerned with the operation of, the computer, apparatus or material to afford such assistance as may reasonably be required and, where a record is kept by means of a computer, may require the records to be produced in a form in which they may be taken away.

(3) An inspector who proposes to exercise the power conferred by sub-paragraph (2)(e) above in the case of an article or substance found in any premises must, if so requested by a person who at the time is present in and has responsibilities in relation to those premises, cause anything which is to be done by virtue of that power to be done in the presence of that person.

(4) Before exercising the power conferred by sub-paragraph (2)(e) in the case of any article or substance, an inspector must consult such persons as appear appropriate for the purpose of ascertaining what dangers, if any, there may be in doing anything proposed to be done under that power.

(5) Where an inspector takes possession of any article or substance found in any premises, the inspector must leave there, either with a responsible person or, if that is impracticable, fixed in a conspicuous position, a notice giving particulars of that article or substance sufficient to identify it and stating that it has been taken under that power; and before taking possession of any such substance under that power an inspector must, if it is practicable to do so, take a sample of it and give to a responsible person at the premises a portion of the sample marked in a manner sufficient to identify it.

(6) Nid yw unrhyw ateb a roddir gan berson yn unol â gofyniad a orfodir o dan is-baragraff (2)(e) yn dderbyniol mewn tystiolaeth yn erbyn y person hwnnw neu yn erbyn priod neu bartner sifil y person hwnnw mewn unrhyw achos.

Ymafael mewn pathogenau

2.—(1) Pan fo gan arolygydd sail resymol dros amau bod pathogen anifail penodedig neu gludydd ym meddiant person nad yw'n dal trwydded sy'n ofynnol gan y Gorchymyn hwn neu yn groes i amod trwydded a roddir o dan y Gorchymyn hwn, caiff yr arolygydd hwnnw ar unrhyw adeg ymafael yn, neu beri ymafael yn, y cyfryw bathogen, cludydd neu unrhyw ddeunydd y mae'r arolygydd yn amau yn rhesymol bod y cyfryw bathogen wedi cael ei gadw ynddo neu y mae'n amau yn rhesymol ei fod wedi cael ei gyflwyno iddo.

(2) Os yw'r arolygydd yn barnu ei bod yn hwylus i wneud hynny, caiff yr arolygydd hwnnw at ddiben atal cyflwyno neu ledaenu clefyd, ddal dan gadw, trin neu ddistrywio unrhyw bathogen, cludydd neu ddeunydd a ymafaelwyd.

Glanhau a diheintio

3.—(1) Caiff arolygydd, drwy hysbysiad a gyflwynir i feddiannydd unrhyw fangre (gan gynnwys tŷ annedd) neu i berchennog neu berson sydd â gofal unrhyw gerbyd y mae pathogen penodedig, cludydd neu ddeunydd yn bresennol ynddo neu wedi bod yn bresennol ynddo yn groes i'r Gorchymyn hwn neu yn groes i drwydded a ddyroddir odano, ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo lanhau a diheintio'r cyfryw fangre, lle neu gerbyd mewn unrhyw ddull y caniateir i'r arolygydd drwy'r cyfryw hysbysiad ei bennu, ar draul y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo.

(2) Pan na chydymffurfiwyd â gofynion y cyfryw hysbysiad, caiff yr arolygydd wneud neu beri gwneud y gwaith glanhau a diheintio a bennir yn yr hysbysiad ar draul y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo.

(6) No answer given by a person in pursuance of a requirement imposed under sub-paragraph (2)(g) is admissible in evidence against that person or the spouse or civil partner of that person in any proceedings.

Seizure of pathogens

2.—(1) Where an inspector has reasonable grounds for suspecting that a specified animal pathogen or a carrier is in the possession of a person who does not hold a licence required by this Order or in contravention of a condition of a licence granted under this Order, that inspector may at any time seize, or caused to be seized, such pathogen, carrier or any material in which the inspector reasonably suspects such pathogen to have been kept or into which the inspector reasonably suspects it to be introduced.

(2) If the inspector considers it expedient to do so, that inspector may for the purpose of preventing the introduction or spreading of disease, detain, treat or destroy any pathogen, carrier or material seized.

Cleansing and disinfection

3.—(1) An inspector may, by notice served upon the occupier of any premises (including a dwelling house) or upon the owner or person in charge of any vehicle by which a specified pathogen, carrier or material is or has been present in contravention of this Order or of a licence issued under it, require the person on whom the notice was served to cleanse and disinfect such premises, place or vehicle in such manner as that inspector may by such notice specify, at the expense of the person on whom the notice is served.

(2) Where the requirements of such a notice have not been complied with, the inspector may carry out or cause to be carried out the cleansing and disinfection specified in the notice at the expense of the person on whom the notice has been served.